Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom **nos Lun, 15 Mehefin 2020** am **8:00p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

69. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

70. DATGAN BUDDIANNAU

Cafwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorydd Gavin Harris yng nghyswllt cais cynllunio 20/2020/0366 – Y Plu, 52 Stryd y Ffynnon, Rhuthun ac ni chymrodd ran yn y trafodaethau na'r pleidleisio ar yr eitem hon.

71. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2020 yn gywir.

72. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

73. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Roedd y Clerc wedi dosbarthu adroddiad yn rhestru'r penderfyniadau cynllunio a wnaed gan Gyngor Sir Ddinbych ers y cyfarfod blaenorol ar 2 Mawrth 2020.

74. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y cais a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD: *nad oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r ceisiadau isod.*

02/2020/0366 – Tafarn y Plu, 52 Stryd y Ffynnon, Rhuthun
Addasiadau i ystafell pŵl/swyddogaeth llawr gwaelod ac ystafell storio ar y llawr cyntaf i ffurfio bwyty, darparu ardal decio llawr cyntaf, estyniad i'r gegin a gwaith cysylltiedig
02/2020/0337 - Adeilad allanol yng nghefn y maes parcio, 2 Stryd y Castell, Rhuthun
Trosi adeilad allanol i ffurfio annedd a gwaith cysylltiedig
02/2020/0134 – Dalcairn, Pen y Maes, Rhuthun
Codi estyniad i'r annedd
02/2020/0411 – Capel Bryn Seion, Galltegfa
Amrywio amod rhif 2 o ganiatâd cynllunio 02/2019/0095/PF i ganiatáu ar gyfer dyluniad estyniad diwygiedig

Roedd yr aelodau'n dymuno cyflwyno'r sylwadau a ganlyn ynghylch y cais isod:
02/2020/0372 – Hew House, Castell Rhuthun, Stryd y Castell, Rhuthun
Codi ffens perimedr pren 1.8 metr o uchder
Dymuna'r aelodau gael sicrwydd na fydd y ffens arfaethedig yn ymwthio uwchben y wal sy'n bodoli eisoes.

75. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 6 Gorffennaf 2020 am 7.45pm.*